Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 11eg Hydref yn Oriel y Neuadd Ddinesig, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Roy Davies, Cyng Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Dawn Wallace, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Edward Thomas, Cyng Ros Bellamy Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Fran Murphy

Doedd yna ddim Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried.

Cof 81 / Hydref /06 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio
Caniatawyd y ceisiadau cynllunio canlynol gan y Cyngor Sir:

E/13619 Newid defnydd o 2 ystafell wely ar yr islawr yn gegin-lofft (1 uned), 5, Heol y Farchnad.

E/13186 Estyniad bach ar y llawr gwaelod yng nghefn yr anheddle er mwyn rhoi mynediad i Doiled Allanol sydd eisoes yno o du fewn i'r anheddle, ac i gynnwys cyfleusterau megis cawod yn Six Bells, 5, Adeiladau'r Banc.

Cof 82 / Hydref / 06 Cludiant a Phriffyrdd

1. Adeiladau'r Banc.
   Cytunwyd y byddai'r Cyng Hugh Towns, Cyng Roy Davies, Cyng Richard Wallace yn mynychu ymweliad safle ar ddydd Gwener, Hydref 13eg.
2. Parcio Wrth Ymyl y Ffordd
   Adroddodd y Cyng Hugh Towns ar gyfarfod gyda'r CS Ieuan Jones a Mr John McAvoy. Ystyriwyd y parcio ar hyd Heol Latimer, Heol yr Eglwys, Teras yr Abaty a Heol Cilgant. Addawodd Mr McAvoy y byddai'n gwneud yn siŵr fod y Cyngor yn ymwybodol o'r datblygiadau.

Cof 83 / Hydref / 06 Goleuadau

Gohebiaeth oddi wrth Pauline Jones mewn perthynas â diffyg goleuadau stryd ym Mharc Pencrug, hyn yn ogystal â phrinder arwyddion stryd. Nid yw'r Ffordd yn un sydd wedi'i mabwysiadu, ac nid yw'n debygol y bydd yn cael ei mabwysiadu tan Fawrth / Ebrill 2007. Y Clerc i argymell y dylai Ms Jones gysylltu â'r datblygwyr.

Cof 84/ Hydref / 06 Adroddiad Llwybrau Troed.

1. Dywedodd Mr Des Davies ei bod bron yn amhosib i fynd ar hyd llwybr troed Glynceirch. Argymhellwyd fod y Clerc yn cysylltu â Caroline Ferguson mewn perthynas â'r llwybr a'r posibilrwydd o'i wyro i ochr arall y ffens.
2. Argymhellodd Mr Davies y dylai'r Cyngor ystyried cynnwys torri porfa mynwent yr eglwys yn y rhaglen cynnal a chadw, sy'n cael cymorth arian grant. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns fod Mr Davies yn dod o hyd i ddyfynbrisau er mwyn cynnal a chadw'r fynwent. Eiliwyd hyn gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 85 / Hydref / 06 Gohebiaeth

1. Llythyr oddi wrth ymwelwyr â'r Dref yn beirniadu'r Taliadau Parcio a'r toiledau. Argymhellwyd fod y Clerc yn anfon llythyr gyda hwn i CSC, yn dweud eu bod yn cytuno gyda theimladau'r ymwelwyr.

2. Nice Price News – canmol y Cyngor ar y Llwybr Treftadaeth, ond yn cwyno am gyflwr y rheilins ar hyd llwybr troed Ysgubor Abad. Argymhellwyd fod ei bryderon yn cael eu trosglwyddo ymlaen at Caroline Ferguson.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm.